**CYTUNDEB RHYDDHAU SWMP WATER UK**

**AMODAU ARBENNIG (ARGRAFFIAD CYNTAF)**

**Diffiniadau**

| | | |
|---|---|---|
| Amcangyfrif o’r Cyfraniad at y Cysylltiad | £[*rhif*] | Ni chymhwyswyd yr amod |
| Atodiad | Yr atodiad priodol i’r cytundeb hwn sy’n gysylltiedig â’r Amodau Arbennig yma, sef:<br>1. Y Plan a’r Pwynt Rhyddhau;<br>2. Y Protocol Cysylltu | Yr atodiad priodol i’r cytundeb hwn sy’n gysylltiedig â’r Amodau Arbennig yma, sef:<br>1. Y Plan a’r Pwynt Rhyddhau;<br>2. Y Protocol Cysylltu |
| Cwmni Dŵr | *[enw]* | Dŵr Cymru Cyfyngedig |
| Cyfaint Uchaf - Dŵr Budr | [*rhif*]$m^3$ y dydd, yn amodol ar uchafswm blynyddol o [*rhif*]$m^3$ y flwyddyn [i’w *addasu lle bo sawl pwynt cysylltu, er enghraifft “…yn y pwynt rhyddhau a ddynodir ag ‘A’ … ac … yn y pwynt rhyddhau a ddynodir â ‘B’”*] | [ ] $m^3$ y dydd, yn amodol ar uchafswm blynyddol o[ ] $m^3$ y flwyddyn. |
| Cyfradd Rhyddhau Uchaf - Dŵr Budr | litrau yr eiliad adeg galw brig. [*i’w addasu lle mae sawl pwynt cysylltu, er enghraifft yn y pwynt rhyddhau a nodir ag ‘A’ … ac … yn y pwynt rhyddhau a nodir â ‘B’”*] | [ ] litr yr eiliad adeg galw brig |
| Cyfradd Rhyddhau Uchaf - Dŵr Wyneb | | |
| Cynllun | Y plan a nodir yn Atodiad 1. | I’w ychwanegu ar ôl cadarnhau’r pwynt/iau rhyddhau |
| Cysylltiad Dros Dro | [*i’w ddefnyddio dim ond wrth fabwysiadu cymal opsiynol D*] Y pwynt[iau] rhyddhau a ddynodir ag “A” [*a*][*neu*] “B” ar y Cynllun | Ni chymhwyswyd yr amod |
| Dyddiad Adrodd | Ym mhob blwyddyn [y [diwrnod cyntaf][15fed][diwrnod olaf] o bob mis calendr) [[1 Ionawr] [1 Ebrill] [1 Gorffennaf] [1 Hydref]] | Ar ddyddiad y cysylltiad, ac o hynny ymlaen ar 30ain ddiwrnod Mawrth, Mehefin, Medi a Rhagfyr hyd ddyddiad Terfynu’r Datblygiad. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad Codi Tâl | Ym mhob blwyddyn [y [diwrnod cyntaf][15fed][diwrnod olaf] o bob mis calendr) [[1 Ionawr] [1 Ebrill] [1 Gorffennaf] [1 Hydref]] | Diwygiwyd yr amod i: Cyn pen 5 Diwrnod Busnes ar ôl diwrnod 1af pob mis calendr |
| Dyddiad Darllen y Mesurydd | [Ym mhob blwyddyn [diwrnod cyntaf][15fed ddiwrnod][diwrnod olaf] pob mis calendr] [1 Ionawr] [1 Ebrill] [1 Gorffennaf] [1 Hydref]]] | Diwrnod busnes 1af pob mis calendr (os yw'n berthnasol) |
| Dyddiad Terfynu'r Cysylltiad Dros Dro | [*Dyddiad cwblhau'r Cysylltiad ym Mhwynt Rhyddhau A*] [*Dyddiad meddiannu unrhyw eiddo o fewn Cam 1 (fel a ddangosir ar y Plan*) [*28 diwrnod ar ôl i'r Cwmni Dŵr gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r Penodai Newydd yn hynny o beth*] [*1 Ionawr 2030*] | Ni chymhwyswyd yr amod |
| Mesurydd | | Y mesurydd [ ] a leolir yn |
| Mesurydd Rhyddhau Swmp | | Mesurydd a osodir mewn Pwynt Rhyddhau i gofnodi'r llif sy'n cael ei ryddhau i rwydwaith carthffosiaeth y Cwmni Dŵr |
| Penodai Newydd | *[enw]* | I'w lenwi |
| Protocol Cysylltu | Y manylion cysylltu ar gyfer y ddau barti fel a bennir yn Atodiad 2. | Y manylion cysylltu ar gyfer y ddau barti fel a bennir yn Atodiad 2. |
| Pwynt Rhyddhau | [*Ar gyfer un pwynt cysylltu*] Y pwynt rhyddhau a nodir ag "A" ar y Plan yw'r pwynt lle bydd y Cwmni Dŵr yn derbyn elifion o'r Penodai Newydd o dan y Cytundeb hwn.<br>[*Ar gyfer sawl pwynt cysylltu*] Y pwyntiau rhyddhau a nodir ag "A", "B" ac "C" [*ac ati*] ar y Plan yw'r Pwyntiau lle bydd y Cwmni Dŵr yn derbyn elifion gan y Penodai Newydd o dan y Cytundeb hwn. | I'w gwblhau ar ôl cadarnhau'r pwyntiau rhyddhau |
| Pwynt Rhyddhau Amgen | [*i'w ddefnyddio dim ond lle bod cymalau opsiynol F neu G yn cael eu mabwysiadu*] Y Pwynt Rhyddhau amgen a nodwyd ar y | Ni chymhwyswyd yr amod |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | Plan (os oes un) yw'r pwynt lle gall y Cwmni Dŵr ddarparu pibellau ar gyfer Gwasanaethau Brys neu bibellau ar gyfer Gwasanaethau Cymorth. | |
| Safle | | Datblygiad [  ] yn [  ] |
| Tâl Cyfeintiol | | Y pris fesul $m^3$ fel a bennwyd yn Nogfen Taliadau NAV y *Cwmni Dŵr* ar gyfer y flwyddyn o dan sylw. |
| Tâl Sefydlog | | Y tâl Carthffosiaeth (dŵr budr a dŵr wyneb) fesul eiddo (y gyfradd sylfaenol llai'r didyniadau perthnasol) fel a bennir yn Nogfen Taliadau NAV y Cwmni Dŵr ar gyfer y flwyddyn o dan sylw. |
| Terfyn Uchaf y Datblygiad | [ ] eiddo preswyl [  ] eiddo dibreswyl | [ ] eiddo preswyl [  ] eiddo dibreswyl |

**Cymhwyso'r Amodau Cyffredinol**

Mae'r cytundeb hwn yn ymgorffori Rhan I (Cymalau Craidd) o Amodau Cyffredinol Cytundeb Rhyddhau Swmp Water UK (Argraffiad Cyntaf) ac eithrio [Cymalau 5.3 ac 8.6 a Chymalau 1, 2, 3, 4 a 5 o Atodlen 1] (*i'w cynnwys neu eu dileu fel y bo'n briodol yn dibynnu a oes ar yr eiddo NHH angen caniatâd elifion masnachol ai peidio*) a'r diwygiadau a bennwyd yn Amodau Arbennig 1 i 10 isod.

1. Dylid diwygio'r diffiniad o reolau codi tâl fel a ganlyn:

   Y rheolau a wnaed gan yr Awdurdod sy'n berthnasol i'r Taliadau.

2. Dylid diwygio'r holl gyfeiriadau a wneir at Asiantaeth yr Amgylchedd yn yr Amodau Cyffredinol i Asiantaeth yr Amgylchedd neu Gyfoeth Naturiol Cymru fel y bo'n berthnasol.

3. Dylid diwygio Cymal 5.1 fel a ganlyn:

   Yn amodol ar gymal 5.3, mewn perthynas â'r Pwynt Rhyddhau dŵr budr, bydd y *Penodai Newydd* yn sicrhau bod amser bod unrhyw beth heblaw Dŵr Budr sy'n cael rhyddhau yn unol â'r Ddeddf yn cael ei Ryddhau o Rwydwaith Carthffosiaeth y Penodai Newydd ac, heb gyfaddawdu cyffredinolrwydd yr uchod, bydd yn sicrhau bod ymdreiddiad dŵr daear yn cael ei reoli mewn ffordd briodol er mwyn sicrhau nad yw'n ormodol (ac

fel, pan fo'r *Safle* gweithredu, nad yw'n fwy na 10% o'r llif) unrhyw bryd, a bod y canlynol yn cael ei hepgor o'r deunydd a Ryddheir:

5.1.1 pob hylif o unrhyw ffatri, heblaw am garthion domestig, neu unrhyw hylif o broses gweithgynhyrchu;

5.1.2 pob hylif neu fater arall y gwaherddir ei rhyddhau gan neu o dan unrhyw ddeddf, gan gynnwys, heb gyfaddawdu cyffredinolrwydd yr uchod, unrhyw hylif neu fater arall a waherddir o dan adran 111 o'r Ddeddf;

5.1.3 unrhyw sylweddau o natur, cyfansoddiad neu faint sy'n debygol, naill ai'n unigol neu mewn cyfuniad â chynnwys Rhwydwaith Carthffosiaeth y Cwmni *Dŵr; o*

5.1.3.1 niweidio, difrodi neu gyfaddawdu gweithrediad Rhwydwaith Carthffosiaeth y *Cwmni Dŵr* y mae'n cael ei ryddhau iddo neu sy'n ei gludo;

5.1.3.2 tarfu ar lif rhydd cynnwys Rhwydwaith Carthffosiaeth y *Cwmni Dŵr;*

5.1.3.3 niweidio, difrodi neu gyfaddawdu gweithrediad unrhyw orsaf pwmpio carthion neu weithfeydd trin carthion sy'n eu derbyn, neu unrhyw beiriannau neu offer a osodir ynddynt;

5.1.3.4 tarfu ar unrhyw brosesau puro carthion neu elifion masnachol neu elifion eraill;

5.1.4 pob hylif o Ddraenio Priffyrdd;

5.1.5 pob Dŵr Wyneb;

5.1.6 er mwyn osgoi amheuaeth, pob dŵr o weithfeydd cynaeafu dŵr glaw na chafodd ei ddefnyddio at ddibenion domestig neu o unrhyw garthffosydd neu ddraeniau Dŵr Wyneb.

4. Mewn perthynas â'r Pwynt Rhyddhau Dŵr Wyneb, bydd y *Penodai Newydd* yn sicrhau bob amser bod unrhyw beth heblaw Dŵr Wyneb sydd wedi cael ei rhyddhau yn unol â'r Ddeddf yn cael ei Ryddhau o Rwydwaith Carthffosiaeth y *Penodai Newydd* ac, heb gyfaddawdu cyffredinolrwydd yr uchod, yn sicrhau bod ymdreiddiad dŵr daear yn cael ei reoli mewn ffordd briodol er mwyn sicrhau nad yw'n ormodol (ac fel, pan fo'r *Safle* yn weithredol, nad yw'n fwy na 10% o'r llif) unrhyw bryd, a bod yr holl ddŵr sy'n draenio oddi ar dir yn cael ei hepgor o'r hyn a Ryddheir:

5. Caiff Cymal 8.1 o'r Amodau Cyffredinol ei ddiwygio fel a ganlyn:

Lle bo'r Trefniadau ar gyfer Taliadau NAV yn darparu ar gyfer unrhyw fath o Daliadau yn seiliedig ar gysylltu eiddo â Rhwydwaith Carthffosiaeth y *Penodai Newydd,* bydd y *Penodai Newydd* yn hysbysu'r *Cwmni Dŵr* ar bob *Dyddiad Adrodd* am gyfeiriadau'r eiddo sy'n gysylltiedig â Rhwydwaith Carthffosiaeth y Penodai Newydd yn ystod y Cyfnod Adrodd blaenorol, a bydd y *Cwmni Dŵr* yn cyfrifo unrhyw daliadau sy'n deillio o hynny yn sgil gwneud cysylltiadau o'r fath.

6. Caiff Cymal 8.2.2 o'r Amodau Cyffredinol ei ddiwygio fel a ganlyn:

   Cymerir bod faint y Dŵr Budr y bydd y *Cwmni Dŵr* yn ei dderbyn gan y *Penodai Newydd* yn 95% o'r dŵr a ddefnyddiwyd a gofnodwyd gan y Mesurydd.

7. Caiff Cymal 13.1 o'r Amodau Cyffredinol ei ddiwygio fel a ganlyn:

   Rydym yn datgan trwy hyn na fydd dim o fewn y cytundeb hwn yn atal y *Cwmni Dŵr* na neb arall rhag cynnig cyflenwi gwasanaethau carthffosiaeth i unrhyw berchennog neu ddeiliad safle o fewn y *Safle* naill ai ar ffurf gwasanaeth gan y *Penodai Newydd* neu'r *Cwmni Dŵr* neu unrhyw drydydd parti, ar yr amod bod cyfreithiau Cymru a Lloegr yn caniatáu cyflenwad o'r fath.

8. Caiff Cymal 27.1 o'r Amodau Cyffredinol ei ddiwygio fel a ganlyn:

   Caiff y cytundeb hwn ei lywodraethu gan gyfreithiau Cymru a Lloegr, a bydd yn amodol ar awdurdodaeth llysoedd Cymru a Lloegr.

Ni fydd unrhyw un o'r Cymalau Opsiynol yn Rhan II (Cymalau Opsiynol) o Amodau Cyffredinol Cytundeb Rhyddhau Swmp Water UK (Argraffiad Cyntaf) yn berthnasol oni bai bod y *Cwmni Dŵr* yn gosod Mesurydd Rhyddhau Swmp, ac os felly, Cymalau F ac H yn unig fydd yn berthnasol.

9. <u>Trefniadau Talu NAV</u>

a) Taliadau seilwaith

   Bydd y *Cwmni Dŵr* yn cyhoeddi anfonebau ar gyfer Taliadau Seilwaith (ar gyfer eiddo newydd a gysylltir â Rhwydwaith Carthffosiaeth y *Penodai Newydd*) cyn pen 5 Diwrnod Busnes ar ôl y Dyddiad Adrodd.

b) Taliadau Rhyddhau Swmp

   Cyhoeddir Anfonebau am Daliadau Rhyddhau Swmp cyn pen 5 Diwrnod Busnes ar ôl i'r darlleniad o'r Mesurydd ddod i law.

   - Codir Taliadau Cyfeintiol ar sail [ ]; a

DRAFT

- Bydd Taliadau Sefydlog yn seiliedig ar nifer yr eiddo a gysylltir fel y mae'r *Cwmni Dŵr* yn ei nodi ar y dyddiad Adrodd cyn Dyddiad y Taliadau.

c) Mesurydd rhyddhau swmp

Cyn gosod Mesurydd(ion) Rhyddhau Swmp, bydd y *Cwmni Dŵr* yn cyflwyno sylwadau i'r Penodai Newydd gan nodi'r rhesymau dros y gosodiad arfaethedig, ac yn ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan y *Penodai Newydd* o ran pam na ddylid gosod Mesurydd Rhyddhau Swmp. Ond er mwyn osgoi amheuaeth, mater i'r *Cwmni Dŵr* yw penderfynu a ddylid gosod Mesurydd Rhyddhau Swmp ai peidio.

Os bwriedir gosod Mesurydd Rhyddhau Swmp, bydd y ddau barti'n cytuno ar leoliad y mesurydd ac ni chaiff mynediad i gyflawni'r gwaith gosod ei wrthod yn afresymol.

10. Cydymffurfiaeth ag Adran 106B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991

Bydd y *Penodai Newydd* yn sicrhau nad oes unrhyw gamau'n cael eu cymryd na newidiadau'n cael eu gwneud i'r trefniadau sy'n bodoli rhyngddo a Datblygwyr / Perchnogion y Safle a fydd yn effeithio ar gydymffurfiaeth y *Cwmni Dŵr* ag A106B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

DRAFT

**ATODIAD 1**

**Plan sy’n dangos y Safle a’r Pwynt Rhyddhau**

I’w ychwanegu ar ôl cadarnhau’r pwynt/iau rhyddhau

DRAFT

**ATODIAD 2**

**Protocol Cysylltu**

## Gweithdrefnau Cysylltu ar gyfer Digwyddiadau Gweithredol

Problem gyda'r rhwydwaith dŵr gwastraff a godir gan y Cwmni Dŵr

(1) Bydd y Cwmni Dŵr yn cysylltu â Chanolfan Gwasanaethau Brys y Penodai Newydd gan enwi'r safle o dan sylw, darparu manylion cysylltu a chynghori'r Penodai Newydd am y broblem.

(2) Bydd y Penodai Newydd yn cysylltu â'i gwsmeriaid.

Problem gyda'r rhwydwaith dŵr gwastraff a godir gan y Penodai Newydd

(1) Bydd y Penodai Newydd yn cysylltu â'r Cwmni Dŵr trwy ei Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu ac yn hysbysu'r Cwmni Dŵr am y broblem.

(2) Bydd y Cwmni Dŵr yn ymchwilio ac yn darparu diweddariadau rheolaidd.

## Gwybodaeth gyswllt

Y Cwmni Dŵr

| | | |
|---|---|---|
| Rheolwr y Contract | Lynnette Cross | |
| Digwyddiadau gweithredol yn ystod oriau busnes | Y Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu<br>Dŵr Cymru Welsh Water<br>Blwch SP 3164<br>Caerdydd<br>CF30 0FF<br>Ffôn: 0800 260 5053<br>E-bost:<br>wholesaleservicecentre@dwrcymru.com | 0800 260 5053 |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Digwyddiadau gweithredol y tu hwnt i oriau busnes | Y Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu | 0800 260 5053 |

Y Penodai Newydd

| | | |
|---|---|---|
| Rheolwr y Contract | | |
| Digwyddiadau gweithredol yn ystod oriau busnes | | |
| Digwyddiadau gweithredol y tu hwnt i oriau busnes | | |

DRAFT